Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ar [Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)](#)

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Welsh Language and Education (Wales) Bill**

**WLE 11**
**Ymateb gan: Estyn**
**Response from: Estyn**

---

**Tystiolaeth Estyn ar egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

Diolch am y cyfle i gyflwyno'r dystiolaeth. Rydym yn croesawu'n fawr y Bil ac rydym yn meddwl ei fod yn bwysig wrth gefnogi'r amcanion a gweledigaet Cymraeg 2050. Rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil ac yn cefnogi'r ffaith bod y Bil yn adlewyrchu pa mor uchelgeisiol yw targed y Llywodraeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn y bôn, mae hyn yn dibynnu ar gynyddu'r niferoedd sy'n gadael y system addysg yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Credwn fod gan y system addysg rôl bwysig wrth ystyried yr heriau hyn, ynghyd â'r uchelgais i bob dysgwr ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol. Mae cyflwyno Bil y Gymraeg ac Addysg yn gam positif tuag at wireddu hyn ac yn rhoi statws i'r Gymraeg.

Rydyn ni am ddarparu'r sylwadau isod ar agweddau penodol ar y Bil ac yn gobeithio y bydd y rhain yn ddefnyddiol ar gyfer datblygu'r Bil.

**1. Rôl yr awdurdodau lleol**

Yn ein barn ni, bydd y Bil yn llywio'r penderfyniadau y mae'r awdurdodau lleol yn eu gwneud wrth gynllunio darpariaeth addysg yr awdurdod. Byddwn ni fel sefydliad yn gallu cyfrannu trwy fonitro'r ddarpariaeth hyn a chraffu ar Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg o fewn awdurdodau lleol (CGCA) fel rhan o'n gwaith gydag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae ambell bwynt y gellid ystyried ymhellach:

- Nid yw'r diffiniadau o'r categorïau ieithyddol yn ddigon penodol. Credwn y gallai hyn beri dryswch i'r awdurdodau ac i rieni fel ei gilydd.
- Mae'r awydd i godi safonau o fewn ysgolion 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg' yn gam annatod ac yn un rydyn ni'n cefnogi, ond yr hyn sydd yn peri gofid i ni yw'r posibilrwydd byddai bodloni ar y ddau gategori iaith 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg' a 'Dwy Iaith' yn rhwystro y symudiad tuag at sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd ('Prif Iaith – Cymraeg') mewn ambell awdurdod.
- Gwyddwn nad yw'r system addysg ar hyn o bryd yn creu digon o siaradwyr Cymraeg i ddiwallu'r nifer o athrawon sydd angen a bod y diffyg recriwtio yn fwy dyrys ac anodd mewn ambell awdurdod. Byddai hefyd yn gallu effeithio ar benodi swyddogion penodol o fewn ambell awdurdod fyddai'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg. Dyma'r brif her sy'n bodoli – sef yr her o arfogi'r gweithlu addysg gyda'r sgiliau iaith angenrheidiol. Gwerthfawrogwn y gwaith sydd wedi cael ei gyflawni fel rhan o'r Cynllun Gweithlu Cymraeg ond credwn y bydd angen adeiladu ar y cynllun hwn yn sgil cyflwyno'r Bil. Er enghraifft, bydd angen sicrhau strategaeth glir ar gyfer datblygu gweithlu proffesiynol sydd â'r medrau iaith angenrheidiol.
- Bydd angen ariannu sylweddol os am gynnig hyfforddiant ieithyddol i athrawon o fewn ysgolion – gweler ((t.15 23 3 (d) *Sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ar gael ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru at ddiben gwella gallu yn y Gymraeg).*
- Credwn y dylid sicrhau bod gwaith ieuenctid a gynhelir gan awdurdodau lleol naill ai eu hunain neu drwy gytundebau â chyrff eraill yn rhan o unrhyw Gynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg. Mae'r sector gwaith ieuenctid yn cyflawni rôl bwysig yn addysgol ac yn gymdeithasol. Dylid ystyried gallu'r sector i ymestyn defnydd o'r Gymraeg y tu fewn ac y tu allan i leoliadau addysg ac mewn cyd-destunau amrywiol yn gwbl ganolog i unrhyw strategaeth i greu rhagor o siaradwyr gweithredol a chodi defnydd ystyrlon o'r Gymraeg mewn peuoedd gwahanol.

- Credwn y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo darpariaeth trochi hwyr i rieni, gofalwyr a dysgwyr. Awgrymwn gryfhau'r geiriad *'Mae gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor...i blant o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal a rhieni plant yn ei ardal'* 22 (2)(b)(i) (ii) i hyrwyddo a hybu. Os ydym am gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, mae hyrwyddo a phwysleisio pwysigrwydd trochi i rieni yn angenrheidiol. Gweler yr astudiaethau achos canlynol: Trochi effeithiol: cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd cyflym tra'n eu cynorthwyo i ddysgu a gwerthfawrogi hanes a diwylliant Cymru. - Estyn (llyw.cymru) Defnyddio'r Gymraeg: gweithgareddau allgyrsiol bwriadus ac unigryw sy'n cefnogi dysgwyr i siarad Cymraeg yn gynyddol ddigymell ar safle'r Nant ac yn y gymuned leol - Estyn (llyw.cymru)
- Credwn y dylid creu dyletswydd i awdurdodau i gydweithio gyda darparwyr ôl-16 i wneud yn siŵr bod y cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng Gymraeg a ddatblygu sgiliau iaith Cymraeg yn parhau ar ôl bod bobl ifanc yn gadael addysg statudol.

**2. Gweinidogion Cymru**

- Mae strategaeth iaith y Llywodraeth yn cael ei gosod mewn deddfwriaeth am y tro cyntaf. Rydym yn cefnogi'r syniad bod y continwwm yn efelychu'r cysyniad o'r safonau rhyngwladol a ddarperir gan y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin o ran lefelau iaith. Rydym hefyd yn croesawu bod gan y continwwm sail gyfreithiol gadarn i alluogi datblygu polisïau a chynlluniau gweithredu yn y dyfodol.Credwn gan mai Gweinidogion Cymru fydd yn llunio'r fframwaith (Fframwaith Cenedlaethol ac Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg), bydd yn nodi'n glir sut byddan nhw'n gweithredu cynigion strategaeth y Gymraeg mewn perthynas ag addysg Gymraeg, dysgu Cymraeg (gydol oes) a chaffael y Gymraeg.
- Credwn bydd y Bil (trwy waith Gweinidogion Cymru) yn creu cadwyn o atebolrwydd rhwng cynllunio ieithyddol a gynhelir ar lefel ysgol, awdurdod lleol ac yn genedlaethol.
- Fodd bynnag, credwn fod angen i Weinidogion Cymru sicrhau bod gweithredu pwrpasol a buan er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion yn y gweithlu addysg sydd ddim yn medru'r Gymraeg.
- Credwn bod modd cryfhau'r crynodeb neu'r disgrifiadau ar gyfer categorïau iaith. Fel maent yn sefyll, gallent fod yn gymhleth neu'n gamarweiniol (i rieni yn bennaf wrth ddewis ysgolion). Y peryg yw y byddai rhai rhieni'n teimlo bod y ddarpariaeth o fewn ysgolion 'Dwy Iaith' a 'Prif Iaith- Saesneg, rhannol Gymraeg' yn ddigonol i ddiwallu anghenion eu plant o ran y ddarpariaeth Gymraeg.
- Wrth gyfeirio at isafswm yr amser a ddarperir yn y Gymraeg, byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi sylw dyledus yn ystod arolygiadau i'r amser a bennir i oriau darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan sicrhau nad yw ysgolion yn mynd islaw'r isafswm. Mae 10(3) yn nodi '*Wrth bennu'r amrediad ar gyfer y categori iaith 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg', ni chaiff Gweinidogion Cymru bennu isafswm ar gyfer yr amrediad sy'n llai na 10%.* Ond mae angen pwysleisio pa mor allweddol yw hi i edrych ar ansawdd y ddarpariaeth a gynigir o fewn yr amser hwnnw.
- Ar wahân i'r dyletswydd i ymgysylltu â Medr ar y fframwaith, nid oes digon o eglurdeb sut mae'r fframwaith a'r dyletswyddau eraill yn y Bil yn cyd-fynd gyda dyletswyddau Medr i

- *'annog y galw am addysg drydyddol Gymreig a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfranogiad ynddi;*
- *cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol Gymreig a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb y galw;*
- *annog darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg—*
- *gan ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru, a*
- *gan bersonau eraill sy'n darparu addysg drydyddol a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo'.*

**3. Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

- Cytunwn yn gryf â'r egwyddor y dylai cefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gynnwys addysg ysgolion, gael ei chanoli o fewn un sefydliad sef 'Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol'. Yr amcan yma '*yw cefnogi pobl i ddysgu Cymraeg, a hwyluso'u cynnydd, fel bod rhagor o bobl (o bob oedran) yn dysgu'r iaith'* 37 (1). Bydd sefydlu'r athrofa'n galluogi arbenigwyr o bob sector i ddod at ei gilydd er mwyn cynllunio'n ieithyddol ar draws yr holl sectorau gan ddarparu cysondeb i daith dysgwyr o bob oedran ar hyd y continwwm iaith.
- Mae angen adeiladu ac ymestyn ar arbenigedd a gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wrth sefydlu'r corff hwn a fydd yn bwerdy i ledaenu arferion da, codi disgwyliadau pob sector a chysoni'r hyn sy'n digwydd ar draws sectorau addysg statudol ac mewn gwirionedd anstatudol, er enghraifft addysg i oedolion. Credwn fod rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar ei newydd wedd yn allweddol nid yn unig o ran hyfforddi'r gweithlu addysg ond hefyd o ran gwella addysgeg y gweithlu hwnnw a chaffael ail iaith yn llwyddiannus fel cyfrwng cyfathrebu. Mae'r pwyslais ar gyfathrebu ar lafar yn hytrach nag addysgu fel pwnc gydag arholiadau yn brif nod ac yn un hollbwysig. Dyma enghreifftiau isod o'r hyn sydd ar gael drwy'r Ganolfan ar hyn o bryd.
  Adroddiad arolygiad Dysgu Cymraeg Learn Welsh Nant Gwrtheyrn 2023 (llyw.cymru)
  Trochi effeithiol: cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd cyflym tra'n eu cynorthwyo i ddysgu a gwerthfawrogi hanes a diwylliant Cymru. - Estyn (llyw.cymru)
  Defnyddio'r Gymraeg: gweithgareddau allgyrsiol bwriadus ac unigryw sy'n cefnogi dysgwyr i siarad Cymraeg yn gynyddol ddigymell ar safle'r Nant ac yn y gymuned leol - Estyn (llyw.cymru)
- Mae gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol arbenigedd o ran dysgu a chaffael iaith ac rydym yn ystod ein harolygiadau wedi nodi y dylid rhannu'r fath arbenigedd gyda sectorau eraill. Yn ogystal, rydym wedi cyhoeddi astudiaethau achos ynglŷn â'r ffordd mae'r sector Cymraeg i oedolion yn cynhyrchu siaradwyr gweithredol, er enghraifft
  Cymorth effeithiol yn helpu dysgwyr i siarad Cymraeg yn rhugl - Estyn (llyw.cymru)
  Dulliau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n galluogi dysgwyr i gymathu â'r gymuned Gymraeg - Estyn (llyw.cymru)
  Troi dysgwyr yn ddefnyddwyr y Gymraeg - Estyn (llyw.cymru)
  yn ogystal â chynnig hyfforddiant gwerthfawr i'r gweithlu addysg:
  Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu addysg - Estyn (llyw.cymru)
- Mae'r Ganolfan, a'r sector Cymraeg i oedolion, yn gyfarwydd iawn â disgwyliadau a lefelau'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR). O

ganlyniad, byddai modd ystyried ac addasu cwricwlwm cenedlaethol y sector, sydd yn seiliedig ar y CEFR, fel sail ar gyfer y continwwm iaith ym mhob sector. Mae'r Ganolfan Genedlaethol eisoes yn gyfrifol am hyfforddiant Cymraeg i weithluoedd drwy raglenni Cymraeg Gwaith. Credwn felly, y byddai'n rhesymegol i ymestyn swyddogaeth y Ganolfan Genedlaethol, gan fanteisio ar ei phrofiad ac arbenigedd, i greu corff fyddai'n cynnig arweiniad strategol ac ymarferol ar draws y sectorau addysg. Gweler yr adroddiad arolygu diweddaraf (Ebrill/Mai 24) sydd yn amlinellu sut mae rôl y Ganolfan Genedlaethol wedi esblygu'n gyflym iawn ac mae'n gorff effeithiol. Wrth sefydlu'r Athrofa, bydd angen sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn cael eu nodi'n glir gan ddangos sut mae'r Athrofa yn cyd-blethu gydag unrhyw gyrff perthnasol eraill.

- Fel y nodir yn barod, rydym yn cefnogi'r syniad bod y continwwm yn efelychu'r cysyniad o'r safonau rhyngwladol a ddarperir gan y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin. Rydym hefyd yn croesawu bod gan y continwwm sail gyfreithiol gadarn i alluogi datblygu polisïau a chynlluniau gweithredu yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig ei fod yn cael ei adolygu a'i werthuso'n rheolaidd. O ganlyniad, gellid defnyddio'r ddogfen yn hyderus fel sail i gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n allweddol bod cyflwyno'r continwwm yn cael ei gefnogi gan raglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a chynorthwywyr dosbarth. Byddai adnabod y cyfnodau datblygiad ieithyddol gydag arweiniad sy'n tracio cynnydd o un cyfnod i'r nesaf yn adnodd ac arf hollbwysig i arfogi athrawon a chymorthyddion.
- Credwn ei bod yn holl bwysig i ddysgwyr o bob oed feddu ar gyfleoedd i ddechrau neu barhau ar eu taith tuag at ddod yn siaradwyr gweithredol. Byddai creu un continwwm iaith, yn ogystal â chynlluniau penodol, fel y cynllun newydd i gynnig cyrsiau am ddim i bobl 16-25 oed, yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol gyfartal i ddysgwyr o bob oed wneud hynny. Credwn hefyd fod angen i addysg gydol oes, gan gynnwys partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, wneud llawer mwy nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd i gynnig cyfleoedd cyfartal i siaradwyr Cymraeg, boed hynny yn ddysgwyr hyfedr neu siaradwyr rhugl, ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac o ganlyniad wella a defnyddio eu medrau ieithyddol. Teimlwn fod angen deall addysgeg effeithiol o ran addysgu a chaffael y Gymraeg fel ail iaith, er enghraifft fel y gwelir yn sector Cymraeg i oedolion. Mae'r astudiaeth achos [Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu addysg - Estyn (llyw.cymru)] yn dangos y math o waith sydd wedi digwydd ac sydd erbyn hyn wedi tyfu i fod yn gynnig cynyddol eang i'r gweithlu addysg trwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion. Mae astudiaeth achos arall yn sgil arolygiad y Ganolfan (heb ei chyhoedd eto) sef 'Sut mae'r sector Dysgu Cymraeg yn dylanwadu ar addysgeg a chaffael iaith mewn sectorau eraill yng Nghymru a thu hwnt.'
- Rydyn yn gwerthfawrogi gweld 'Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg...roi cymorth ariannol i ddarparwyr ddysgu Cymraeg mewn perthynas ag addysg neu ddysgu Cymraeg' 37 (3) (c). Credwn yn gryf na ddylai arian fod yn rhwystr i bobl Cymru ddysgu'r Gymraeg.